



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 58  
MEDI 2013

Mae eleni yn hanner canfed pen-blwydd araith enwog Dr Martin Luther King, *Mae gen i freuddwyd*, a draddodwyd ganddo ar 28 Awst 1963. Ar y diwrnod hwnnw gorymdeithiodd 250,000 o bobl yn Washington, prifddinas yr Unol Daleithiau, i alw am gydraddoldeb hiliol. Ar y pryd roedd pobl dduon eu croen yn cael eu trin fel trigolion ail ddsbarth ac nid oedd ganddynt yr hawl i ddefnyddio yr un cyfleusterau cyhoeddus â phobl wynion. Ond o fewn dwy flynedd i'r araith a draddodwyd gan Martin Luther King, llofnodwyd y Ddeddf Hawliau Sifil a'r Ddeddf Hawliau Pleidleisio a fu'n gam aruthrol tuag at sicrhau cydraddoldeb hiliol.

Ni fu'r frwydr yn un rhydd i bobl dduon yr Unol Daleithiau. Bu farw llawer o ganlyniad i ymosodiadau treisgar ac fe dalodd Martin Luther King ei hun y pris eithaf am ei ran yn y frwydr hon gan iddo yntau gael ei saethu'n farw yn 1968.

Yn yr un flwyddyn y traddododd ei anerchiad fe gyhoeddodd ysgrif o'r enw *Pilgrimage to Non Violence* lle cyfeiriodd at rai o'i brofiadau yn y frwydr i sicrhau rhyddid i'w bobl. Ynddi mae'n sôn sut y cafodd ei garcharu ddeuddeg o weithiau yng ngharchardai Alabama a Georgia, gosodwyd bomiau yn ei gartref ddwywaith, derbyniodd ef a'i deulu fygythiadau i'w lladd yn feunyddiol a chafodd ei drywanu. Disgrifiodd sut yr oedd y stormydd o erledigaeth wedi'i guro'n ddi-drugaredd ac fel y cafodd ei demtio droeon i roi'r gorau i'r frwydr a dilyn bywyd mwy tawel. Ond meddai, bob tro y byddai'r fath demtasiwn yn ymddangos, byddai'i ymroddiad yn cael ei gryfhau a'i gynnal. Meddai: *'But every time such a temptation appeared, something came to strengthen and sustain my determination. I have learned now that the Master's burden is light precisely when we take his yoke upon us'.*

Tra bo hiliaeth a thrais yn parhau yn erbyn cyd-ddyn yn ein byd gwyddom na chafodd breuddwyd Martin Luther King ei gwireddu hyd yn hyn ond gweddiwn y bydd y diwrnod hwnnw yn prysur agosáu. Crisialwyd neges ei freuddwyd yn wych iawn mewn cerdd gan y bardd Gwyn Thomas a dyma ddetholiad ohoni:

*Mae gen i freuddwyd am y wlad  
Lle bydd pawb yn bobol  
Lle na fydd gormes na nacâd  
Na chas byth mwy dragwyddol.*

*Mae gen i freuddwyd am y wlad  
Lle bydd diwedd angau,  
Lle na fydd cynnen, trais na brad,  
Lle na fydd ofn cadwynau.*

*Mae gen i freuddwyd am y wlad  
Lle bydd cariad yno,  
Lle na fydd dicter mwy, na llid,  
Lle na fydd neb yn wylo.*

Gwyn Thomas

Wrth gofio am yr anerchiad a draddodwyd hanner canrif yn ôl, diolchwn am gyfraniad amhrisadwy Martin Luther King i hanes y ddynoliaeth a boed i'w eiriau a'i ffydd barhau i'n hysbrydoli i weithio dros gyfiawnder a thangnefedd yn ein byd heddiw.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

## CALENDR MIS MEDI 2013

Cyhoeddwr y Mis: William Howells	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
1 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Sue a Mervyn
8 Medi 10.30yb	Oedfa Deuluol : Gweinidog	
15 Medi 2.30yp	Oedfa Bregethu: Y Parchg Peter Thomas	Gofal y Te: I'w drefnu
22 Medi 10.00yb	Oedfa Menter Gobaith yng Ngharmel, Llanilar	
29 Medi 10.30yb	Oedfa Bregethu: Lyn Lewis Dafis	
6 Hydref 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan

### I'CH DYDDIADUR

2 Medi: Cinio Cymorth Cristnogol ym Methel, Stryd y Popty: 12.00-1.30yp.

11 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.

12 Medi: Cyfarfod Blyneddol Clwb CIC yn Ffestri'r Garn am 7yh.

18 Medi: Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Craig Duggan yn Ffestri Horeb am 7.30yh.

22 Medi: Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel Carmel, Llanilar am 10.00yb.

24 Medi: Cylch Darllen y Beibl am 3.30yp yn Ffestri Horeb.

25 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

25 Medi: Cyfarfod Diaconiaid Bethel a Horeb yn Horeb am 5yh a Chyfarfod Diaconiaid Horeb i ddilyn am 6yh.

2 Hydref: Cyfarfod Diolchgarwch Horeb am 7yh.

### LLOFFION

Llongyfarchiadau i Karen a Mathew ar enedigaeth Caitlin, chwaer i Owen Jac ac wŷr i Sue a Mervyn.

Llongyfarchiadau i Sandra a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 13 Medi. Pen-blwydd Hapus!

Diolch yn fawr iawn i Sandra, Gwydion ac Eirian am baratoir barbeciw ym mis Gorffennaf, i bob un a gyfrannodd bwdin neu salad, i Ceri a Derfel am feirniadu'r gystadleuaeth arlunio, ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson. Diolch yn fawr iawn hefyd i Sian am ganiatáu inni ddefnyddio'r stablau. Mawr yw'r gwerthfawrogiad.

Cylch Darllen y Beibl: Bydd Cyfarfodydd Cylch Darllen y Beibl yn ail-gychwyn ar brynhawn dydd Mawrth 24 Medi am 3.30yp. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn darllen Penodau 10 ac 11 o Lyfr y Datguddiad.